

Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall

23 Mawrth 2021

Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 9 Chwefror, pan wnaethoch ofyn:

Dear Welsh Parliament,

This is a request under the Freedom of Information Act 2000 (FOIA). Please provide any information that you hold answering to any of the following descriptions:

- 1. Any application you made in 2019 or 2020 to be a "Stonewall Diversity Champion" or to be included on Stonewall's "Workplace Equality Index," including any attachments or appendices to those applications. Please redact personal details if necessary.*
- 2. Any feedback you received in 2019 or 2020 from Stonewall in relation to either application or programme.*
- 3. Any other communication you have received from Stonewall in 2019 or 2020 unless privileged or otherwise exempt from disclosure (but if you claim privilege or exemption in relation to any material, please say in broad terms what the material is and the basis on which you claim to be entitled to withhold it).*
- 4. Full details of any equality impact assessment you carried out connected with any of these applications (including any equality impact assessment carried out prior to an earlier application of the same kind, if no further assessment was done).*

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

5. Details of the total amount of money you paid to Stonewall (i) in 2019; (ii) in 2020, whether or not as payment for goods or services.

6. Whether you intend to continue your membership of any Stonewall scheme in the future, and if so which.

Nid ydym eto mewn sefyllfa i ymateb i gwestiwn 2 a chwestiwn 3, ond byddwn yn sicrhau bod gennych y wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnydd a byddwn yn ymateb i chi cyn gynted ag y bo modd.

Gweler isod ein hymatebion i'r cwestiynau y gallwn eu hateb:

1. Mae'r dogfennau a gyflwynwyd gennym i Stonewall ynghlwm. (Anfonwch neges e-bost at ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru i gael y wybodaeth hon). Mae peth o'r wybodaeth rydych chi wedi gofyn amdani wedi cael ei golygu oherwydd ei bod yn cynnwys data personol sydd wedi'i eithrio rhag cael eu datgelu o dan yr eithriad 'gwybodaeth bersonol' yn adran 40(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol pan fo'r wybodaeth y gofynnir amdani yn cynnwys data personol ac y byddai ei datgelu yn mynd yn groes i unrhyw un neu rai o'r egwyddorion diogelu data a nodir yn Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU).

Rydym hefyd wedi dileu manylion mynediad i'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr sydd ar gael i weithwyr Comisiwn y Senedd, Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth, a chontractwyr ar y safle. Rydym o'r farn y byddai rhyddhau'r wybodaeth hon yn niweidio ein buddiannau masnachol ac felly y mae wedi cael ei heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 43(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Ceir rhesymau pellach ar gyfer y ddau eithriad yn yr **Atodiad** i'r llythyr hwn.

4. Nid oes gennym unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi mewn perthynas â'ch cais.
5. Mae'r tabl isod yn nodi'r symiau a dalwyd i Stonewall am wasanaethau yn ystod 2019 a 2020:

2019	Aelodaeth o ran Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall	3,000.00
	Hyfforddiant Trawsrywedol	900.00
	Cynhadledd Stonewall Cymru ar gyfer y Gweithle 2020	540.00
2020	Aelodaeth o ran Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall	3,000.00

6. Nid oes gennym unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi mewn perthynas â'ch cais.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Atodiad

Adran 40 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth: byddai datgelu data personol yn torri Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y DU

Mae'r diffiniad o ddata personol sydd wedi'i gynnwys yn Erthygl 4 y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ("GDPR"), fel a ganlyn:

"any information relating to an identified or identifiable person ('data subject'); an identifiable natural person is one who can be identified, directly or indirectly, in particular by reference to an identifier such as a name, an identification number, location data, an online identifier or to one or more factors specific to the physical, physiological, genetic, mental, economic, cultural or social identity of that natural person".

Mae'r dogfennau sy'n cael eu cwmpasu gan eich cais yn cynnwys enwau, teitlau swyddi, cyfeiriadau e-bost, rhifau ffôn a phrofiadau personol gweithwyr Comisiwn y Senedd ("y Comisiwn") a gweithwyr Stonewall.

Mae gwybodaeth bersonol wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) a 40(3A)(a) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mewn achosion lle byddai ei datgelu yn mynd yn groes i o leiaf un o'r egwyddorion diogelu data yn GDPR y DU. Yr egwyddor sy'n berthnasol ar yr achlysur hwn yw'r egwyddor gyntaf o ran diogelu data.

Mae'r egwyddor diogelu data gyntaf fel y'i nodir yn Erthygl 5 o GDPR y DU yn nodi:

"Personal data shall be processed lawfully, fairly and in a transparent manner in relation to the data subject ('lawfulness, fairness and transparency')".

Wrth benderfynu a fyddai datgelu'r wybodaeth hon yn deg, rydym wedi ystyried goblygiadau'r datgeliad, disgwyliadau rhesymol yr unigolion dan sylw, a'r cydbwysedd i'w daro rhwng hawliau'r unigolion ac unrhyw fudd dilys mewn perthynas â datgeliad. Ein casgliad yw y byddai'n annheg datgelu'r wybodaeth. Rhannodd yr unigolion, gan gynnwys staff y Comisiwn, eu manylion a'u profiadau personol â staff y Comisiwn a oedd yn gyfrifol am ysgrifennu erthyglau tudalen newyddion a chyfathrebiadau mewnol eraill, gan ddisgwyl y byddai'r wybodaeth yn cael ei defnyddio at ddibenion cyfyngedig. Roedd y fenter 'cyfeillion LGBT', er enghraifft, yn ymgyrch ledled y Senedd i annog staff ar bob lefel i ddod yn 'gyfeillion'. Mynegodd aelodau'r rhwydwaith LGBT eu teimladau a'u barn am bwysigrwydd y cyfeillion hyn ym mhob lefel o'r sefydliad, ac roedd hyn hefyd i fod at ddefnydd cyfyngedig.

Mae'r wybodaeth olygedig hefyd yn cynnwys data personol eraill sy'n ymwneud ag unigolion lle nad oes disgwyl i'r data hyn gael ei datgelu i drydydd partion eraill. Beth bynnag, ein barn ni yw nad yw'r wybodaeth hon yn ychwanegu at sylwedd ein hymateb i'ch cais, gan fod prif swmp ein cyflwyniadau yn cael ei ddatgelu i chi.

Er gwaethaf ein barn ynghylch sicrhau tegwch, aethom ymlaen i ystyried Erthygl 6 o GDPR y DU. Nid yw unrhyw un o'r amodau yn Erthygl 6 yn berthnasol, heblaw Erthygl 6(1)(f), sy'n caniatáu i wybodaeth personol gael ei phrosesu ar yr amod a ganlyn:

"processing is necessary for the purposes of the legitimate interests pursued by the controller or by a third party, except where such interests are overridden by the interests or fundamental rights and freedoms of the data subject which require protection of personal data, in particular where the data subject is a child."

Mae'r amod hwn yn cynnwys prawf mewn tair rhan:

- Rhaid bod datgelu'r wybodaeth o fudd cyhoeddus dilys;
- Rhaid i'r datgeliad fod yn angenrheidiol i sicrhau budd y cyhoedd; ac
- Ni ddylai'r datgeliad ddiystyru buddiannau, hawliau sylfaenol na rhyddid gwrthrych y data.

Rydym wedi ystyried yn ofalus y buddiannau perthnasol, sy'n cynnwys: cyfrifoldebau'r Comisiwn o dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'r DU a Deddf Diogelu Data 2018; eich hawl chi i gael mynediad at y wybodaeth hon; natur rolau'r unigolion a'u hawl hwy i breifatrwydd; a budd y cyhoedd yn sgîl datgelu'r wybodaeth hon.

Roedd ein safle yn rhestr 100 cyflogwr gorau Stonewall ar gyfer 2020 yn gyflawniad aruthrol i'r Comisiwn. Rydym yn gwerthfawrogi budd y cyhoedd o ran gweithgareddau sefydliad sector cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant, yn ogystal ag unrhyw wariant cysylltiedig â'r defnydd o adnoddau staff, ond ni ddylai hynny beri risg y bydd yr unigolion a gyfrannodd at ei lwyddiant yn cael eu hadnabod.

Yn ein barn ni, mae darparu'r wybodaeth ar ei ffurf olygedig yn ffordd gytbwys o fodloni budd y cyhoedd, ac ar yr un pryd sicrhau na thanseilir buddiannau, hawliau sylfaenol na rhyddidau unigolion.

Adran 43 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth: byddai datgelu'n niweidio, neu'n debygol o niweidio, ein buddiannau masnachol.

Mae adran 43(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn eithrio rhag datgelu unrhyw wybodaeth a 'fyddai, neu a fyddai'n debygol, o niweidio buddiannau masnachol unrhyw berson (gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus sy'n ei dal).'

Y bwriad y tu ôl i'r eithriad yw atal datgelu gwybodaeth a allai achosi niwed i fuddiannau masnachol unrhyw sefydliad, megis ei allu i gymryd rhan gystadleuol mewn gweithgarwch masnachol.

Y wybodaeth sydd wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu yw'r ffordd y gall staff y Comisiwn, Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth, a chontractwyr ar y safle gael mynediad at y Rhaglen Cymorth i Weithwyr. O ryddhau'r manylion sy'n benodol i'r Comisiwn ynghylch sut i gael mynediad at y gwasanaeth hwn, gallai'r darparwr fod yn destun ymholiadau maleisus sydd i'w gweld yn tarddu o'r Comisiwn. Yn fy marn i hefyd, nid yw'r wybodaeth hon yn angenrheidiol er mwyn i chi ddeall y ddogfen gyflwyno yn ei chrynswth.

Rwyf hefyd o'r farn y byddai datgelu yn debygol o niweidio ein henw da wrth geisio adnewyddu'r contract hwn. Gall hyn, yn ei dro, wneud y trydydd partïon dan sylw ac eraill yn llai parod i weithio gyda ni yn y dyfodol, a gall hynny leihau ein gallu i sicrhau gwerth gorau mewn prosiectau a mentrau masnachol eraill.

Mae adran 43(2) yn ddarostyngedig i ystyriaeth 'prawf budd y cyhoedd'. Er mwyn atal y wybodaeth y gofynnir amdani, mae'n rhaid fy mod yn fodlon bod y budd i'r cyhoedd o gynnal yr eithriad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth.

Rydym yn ymwybodol o'r angen, lle bo'n briodol, i fod yn agored ac yn dryloyw. Fodd bynnag, mae budd mawr i'r cyhoedd mewn amddiffyn buddiannau masnachol y Comisiwn er mwyn sicrhau gwerth am arian o ran gwariant cyhoeddus. Mae gallu'r Comisiwn i sicrhau gwerth am arian yn ei hanfod yn gysylltiedig â'i enw da mewn cylchoedd masnachol. Ein barn ni yw bod budd y cyhoedd yn cael ei fodloni drwy ddarparu'r ddogfen gyflwyno i chi gyda'r wybodaeth fasnachol sensitif wedi'i golygu.